E-lawlyfr 2

CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

Adnodd 8

# *Cenedlaetholdeb: Ffrydiau Amrywiol*

## Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr is-raddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR UNED | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED |
|---|---|
| Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 3: Ceidwadaeth: nodweddion allweddol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol | 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol | 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| **Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol** | **3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol** |

**Awdur yr adnodd hwn:**

Dr. Huw Lewis

# GWYBODAETH GRAIDD

## Ffurfiau ar Genedlaetholdeb

Mae cenedlaetholdeb yn ideoleg sydd wedi cwmpasu ystod eang iawn o ffrydiau. Yn wir, ar brydiau ymddengys y byddai'n fwy addas sôn am gyfres o genedlaetholdebau gwahanol yn hytrach na thrin cenedlaetholdeb fel un traddodiad cydlynol.

I raddau, gellid cyflwyno dadl o'r fath yn achos bron pob un ideoleg wleidyddol. Er hyn, mae rhywbeth reit unigryw ynglŷn ag ehangder ac amrywiaeth y safbwyntiau gwleidyddol sydd wedi'u cysylltu â chenedlaetholdeb dros y blynyddoedd. Yn wir, ar wahanol adegau mae cenedlaetholdeb wedi cwmpasu syniadau gwleidyddol blaengar ac adweithiol, democrataidd ac awdurdodaidd, rhyddfreiniol a gorthrymol, adain chwith ac adain dde.

Mae'r llenyddiaeth academaidd sy'n trafod cenedlaetholdeb yn cynnwys nifer helaeth o ymdrechion i sefydlu teipolegau sy'n gwahaniaethu rhwng mathau amrywiol o genedlaetholdeb. Mae dwy o'r teipolegau hyn wedi profi'n arbennig o ddylanwadol dros y blynyddoedd.

: Mae'r gyntaf ohonynt yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o genedlaetholdeb trwy ystyried y modd y mae mudiadau cenedlaethol yn dewis diffinio pwy sy'n medru hawlio aelodaeth o'r genedl – hon yw'r deipoleg sy'n gwahaniaethu rhwng **cenedlaetholdeb ethnig a chenedlaetholdeb dinesig**.

: Mae'r ail, yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o genedlaetholdeb trwy canolbwyntio ar y modd y maent wedi datblygu trwy gael eu hasio â syniadau pwysig o draddodiadau ideolegol eraill – hon yw'r deipoleg sy'n gwahaniaethu rhwng **cenedlaetholdeb rhyddfrydol a chenedlaetholdeb ceidwadol**.

## Cenedlaetholdeb Ethnig a Chenedlaetholdeb Dinesig

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif daeth yn ffasiynol ymhlith ysgolheigion oedd yn astudio cenedlaetholdeb i wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o genedlaetholdeb trwy ddefnyddio'r categorïau cenedlaetholdeb ethnig a chenedlaetholdeb dinesig. Y gwahaniaeth rhwng y ddau ffurf yma ar genedlaetholdeb yw'r modd y caiff y genedl ei diffinio, ac yn sgil hynny, sut yr eir ati i ddynodi pwy sy'n medru cael eu cydnabod fel aelodau ohoni.

: Caiff **cenedlaetholdeb ethnig** ei ddiffinio fel ffurf ar genedlaetholdeb sy'n dehongli'r genedl fel cymuned naturiol ac oesol sy'n seiliedig ar nodweddion ethnig neu ddiwylliannol penodol, er enghraifft hil, tras, crefydd neu iaith gyffredin. Yn ogystal, tybir bod aelodaeth person o'r genedl yn dibynnu ar y graddau y mae'n rhannu y nodwedd ethnig neu ddiwylliannol hyn â'i gyd-aelodau.

: Caiff **cenedlaetholdeb dinesig** ei ddiffinio fel ffurf ar genedlaetholdeb sy'n dehongli'r genedl fel cymuned o bobl sydd wedi dewis dod ynghyd i fyw o dan sefydliadau gwleidyddol a dinesig cyffredin. Yn wir, y dewis yma i fyw gydag eraill, gan rannu ymrwymiadau cymdeithasol a gwleidyddol – hynny yw i rannu dinasyddiaeth gyffredin– sy'n esgor ar aelodaeth o'r genedl, yn hytrach na'r graddau y mae person yn meddu ar nodweddion ethnig neu ddiwylliannol penodol.

Datblygodd y categorïau dinesig ac ethnig i fod yn rhai poblogaidd iawn ymhlith ysgolheigion academaidd oedd yn astudio cenedlaetholdeb. Yn bennaf, fe'u defnyddiwyd fel categorïau a oedd yn caniatáu gwahaniaethu rhwng ffurfiau cul ac anoddefgar ar genedlaetholdeb a ffurfiau mwy agored a goleuedig.

Ar y naill llaw, tueddwyd i drin cenedlaetholdeb ethnig fel traddodiad peryglus a niweidiol, yn sgil ei bwyslais ar yr angen i aelodau'r genedl rannu rhai clymau ethnig a diwylliannol penodol. Honnwyd, er enghraifft, mai dyma'r math o genedlaetholdeb a oedd wedi sbarduno'r rhyfela rhyng-ethnig gwaedlyd a welwyd yn yr hen Iwgoslafia yn ystod y 1990au.

Ar y llaw arall, tueddwyd i drin cenedlaetholdeb dinesig fel traddodiad mwy blaengar a chadarnhaol, yn sgil ei bwyslais ar ddinasyddiaeth a sefydliadau, a'i barodrwydd i ddehongli'r genedl mewn termau mwy cynhwysol. Dyma, er enghraifft, oedd y math o genedlaetholdeb a gâi ei gysylltu â gwladwriaethau rhyddfrydol-ddemocrataidd mawr megis Unol Daleithiau America a Ffrainc.

Fodd bynnag, mae peryg rhoi gormod o bwyslais ar y rhaniad ething-dinesig wrth drafod cenedlaetholdeb, gan fod dadleuon a gweithredoedd dydd-i-ddydd cenedlaetholwyr yn aml yn medru bod yn gyfuniad cymhleth o'r ethnig a'r dinesig.

Cymerer, er enghraiff yr achos Cymreig. Mae tuedd gyffredin yn y llenyddiaeth academaidd i labeli cenedlaetholdeb Cymreig fel un diwylliannol ac ethnig ei natur. Deillia hyn o'r ffaith fod yr iaith Gymraeg wedi'i thrin fel elfen mor bwysig o'n hunaniaeth genedlaethol dros y canrifoedd a hefyd y ffaith fod y mudiad cenedlaethol cyfoes wedi rhoi cymaint o bwyslais ar yr angen i gynnal ac adfywio'r iaith. Fodd bynnag, mae'r angen i adeiladu sefydliadau dinesig Cymreig hefyd wedi bod yn amcan pwysig i genedlaetholwyr ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hyn wedi cynnwys creu prifysgol genedlaethol, amgueddfa genedlaethol, llyfrgell genedlaethol, ac yn fwy diweddar senedd genedlaethol. O ystyried hyn, onid yw cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y cyfnod modern wedi bod yn gyfuniad cymhleth o'r ethnig a'r dinesig?

Fe welir tueddiadau tebyg wrth droi i ystyried y math o genedlaetholdeb a gaiff ei arddel gan rai o genedl-wladwriaethau mawr y Gorllewin, er enghraifft Ffrainc, Prydain a'r Unol Daeleithiau. Y duedd gyffredinol fu tybio mai cenedlaetholdeb sifig a gaiff ei arddel yn y mannau hyn, gan fod aelodaeth o'r 'genedl' yn agored i unrhyw unigolyn sy'n meddu ar ddinasyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ennill y ddinasyddiaeth hon yn aml yn cynnwys meddu ar rai nodweddion diwylliannol neu ethnig. Fe welir hyn yn bennaf mewn perthynas â pholisïau mewnfudo y gwledydd hyn, lle bo meddu ar y gallu i siarad iaith benodol (Ffrangeg neu Saesneg) yn rhagamod ar gyfer ennill dinasyddiaeth.

O ganlyniad, er na ellir gwadu bod i'r rhaniad rhwng cenedlaetholdeb sifig werth dadansoddol pwysig, dylid gochel rhag dibynnu'n ormodol ar y categoriau hyn. Y gwir amdani yw mai anaml y bydd enghreifftiau o genedlaetholdeb yn syrthio'n daclus i'r naill gategori neu'r llall. Yn amlach na pheidio, bydd cenedlaetholdeb yn gymysgedd gymhleth o'r ddwy elfen.

## Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol

Datblygodd traddodiad a oedd yn asio syniadau cenedlaetholgar â rhai rhyddfrydol yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y Chwyldro Ffrengig ym 1789. Yn wir, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd cyswllt agos iawn yn datblygu rhwng y ddau draddodiad yma ar draws gwahanol rannau o Ewrop. Nodweddwyd y gyfres o chwyldroadau a welwyd ar draws y cyfandir ym 1848 gan ddadleuon a oedd yn cyfuno'r alwad am ymreolaeth genedlaethol â galwad am drefniadau llywodraethol mwy cyfansoddiadol ac atebol.

Yn fwy diweddar, fe welir dylanwad cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn y 'Pedwar Pwynt ar Ddeg' enwog a luniwyd ym 1918 gan arlywydd America, Woodrow Wilson (1856-1924) fel sail Gytundeb Versailles – y cytundeb heddwch a luniwyd ar ddiwedd yr Rhyfel Byd Cyntaf ac arweiniodd at aildrefnu gwleidyddol a thiriogaethol sylweddol ar draws rhannau o ganolbarth a dwyrain Ewrop.

Mae dwy elfen bwysig yn perthyn i syniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol – y naill yn nodwedd genedlaetholgar a'r llall yn nodwedd ryddfrydol:

: **Hunanbenderfyniaeth cenedlaethol**: I ddechrau, caiff y wedd genedlaetholgar ei hamlygu gan y ffaith fod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn credu bod y byd wedi'i rannu'n gyfres o genhedloedd gwahanol, a phob un yn meddu ar hunaniaeth unigryw. Ymhellach, tybir bod pob un o'r cenhedloedd hyn yn gyfartal o ran statws ac yn cynrychioli unedau addas ar gyfer trefnu cymdeithas wleidyddol. O ganlyniad, amcan traddodiadol cenedlaetholwyr rhyddfrydol fu ceisio creu amodau lle bo pob cenedl yn meddu ar hunanbenderfyniaeth – hynny yw yr annibyniaeth wleidyddol i lunio ei dyfodol ei hun ar ei thelerau ei hun.

: **Sofraniaeth y bobl**: Yn ail, caiff y pwyslais cenedlaetholgar uchod ar statws unedau cenedlaethol ei asio â'r pwyslais rhyddfrydol ar gydsyniad neu sofraniaeth y bobl – hynny yw y gred y dylai grym ac awdurdod gwleidyddol godi o'r gwaelod, o blith y bobl gyffredin. Yn yr achos hwn, wrth gwrs, y 'bobl' berthnasol yw aelodau'r genedl, a'u cydsyniad nhw y mae angen ei sicrhau wrth greu cymuned wleidyddol a threfnu ei sustem lywodraethol.

At ei gilydd gwelir fod cenedlaetholwyr rhyddfrydol nid yn unig yn poeni ynglŷn a ble yn union y bydd ffiniau cymuned wleidyddol benodol yn gorwedd, ond hefyd pa fath o gyfundrefn wleidyddol a fydd yn cael ei chreu o fewn y ffiniau hynny.

Fodd bynnag, er poblogrwydd cenedlaetholdeb rhyddfrydol dros y blynyddoedd, mae beirniaid wedi tynnu sylw at ystod o wendidau posib.

O bosib, y mwyaf difrifol o'r beirniadaethau hyn yw honno sy'n mynnu bod cred cenedlaetholwyr rhyddfrydol y dylai pob cenedl gael ei thrin yn gyfartal, gan feddu ar hawl gyfartal i hunanbenderfyniaeth cenedlaethol, yn gwbl anymarferol. Y gwir amdani yw nad yw cenhedloedd yn unedau unffurf sydd ond yn cynnwys un grŵp ethnig neu ddiwylliannol. Yn aml iawn bydd cenhedloedd yn cwmpasu amryw o grwpiau gwahanol sydd oll â syniadau gwahanol ynglŷn â sut y dylid trefnu dyfodol gwleidyddol y diriogaeth. Mae hanes gwaedlyd diweddar yr Iwgoslafia gynt yn brawf clir o hyn. O ganlyniad, mae beirniaid cenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi dadlau na all ei egwyddorion gynnig canllaw dibynadwy ar gyfer ymdrin â byd sy'n llawn o wahaniaethau a thensiynau ethno-genedlaethol.

## Cenedlaetholdeb Ceidwadol

Er bod cenedlaetholdeb a rhyddfrydiaeth wedi datblygu perthynas agos yn gynnar yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tueddai ceidwadwyr y cyfnod i ystyried cenedlaetholdeb fel grym peryglus a oedd yn meddu ar y potensial i danseilio trefn a sefydlogrwydd cymdeithasol. Fodd bynnag, yn hwyrach yn ystod y ganrif gwelwyd ceidwadwyr yn magu agwedd fwy ffafriol tuag at genedlaetholdeb ac yn sgil hynny gwelwyd ffurf ar genedlaetholdeb ceidwadol yn datblygu.

Un ffactor a barodd i wleidyddion ceidwadol y cyfnod, megis Benjamin Disraeli ym Mhrydain ac Otto van Bismark yn yr Almaen, roi mwy o sylw i syniadau cenedlaetholgar oedd y gred y gellid manteisio ar ei bwyslais ar fodolaeth cwlwm cenedlaethol sy'n uno aelodau'r genedl. Tybiwyd y gellid defnyddio syniadau o'r fath er mwyn hwyluso ymdrechion ceidwadwyr i gynnal undod a sefydlogrwydd cymdeithasol ac amddiffyn sefydliadau traddodiadol.

Gwelwyd tactegau tebyg yn cael eu harddel gan geidwadwyr mwy cyfoes hefyd. Er enghraifft, roedd gogwydd cenedlaetholgar amlwg i wleidyddiaeth Charles De Gaulle, arlywydd ceidwadol Ffrainc rhwng 1959 a 1969. I raddau helaeth, gellir dehongli agenda wleidyddol Margaret Thatcher, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig rhwng 1979 a 1990, fel un oedd hefyd yn meddu ar ogwydd cenedlaetholgar cryf.

O ystyried y pwyslais y mae cenedlaetholwyr ceidwadol eu natur yn tueddu i'w roi ar drefn, undod a sefydlogrwydd cenedlaethol, nid yw'n syndod fod y ffurf hon ar genedlaetholdeb wedi tueddu i gael ei mynegi mewn modd arbennig o echblyg ar adegau pan dybir fod y genedl a'i hunaniaeth yn cael eu bygwth.

: **Integreiddio Ewropeaidd**: Fel rhan o'u hymgais i wrthwynebu'r broses o integreiddio Ewropeaidd, gwelwyd nifer o wleidyddion adain dde o bob rhan o'r cyfandir yn dadlau bod datblygiad trefniadau llywodraethol 'uwchgenedlaethol' yn peryglu sofraniaeth genedlaethol a hefyd yn tanseilio pob math o sefydliadau cenedlaethol traddodiadol. Wrth gwrs, fe welwyd hyn ar ei fwyaf amlwg ym Mhrydain ymhlith aelodau'r Blaid Geidwadol ac UKIP. Fodd bynnag bu'n nodwedd o ddadleuon gwleidyddion ceidwadol eraill hefyd, er enghraifft aelodau pleidiau'r Ffrynt Genedlaethol yn Ffrainc neu Lega yn yr Eidal.

: **Mewnfudo**: Mae'r modd y mae ceidwadwyr wedi mynegi eu hamheuon ynglŷn a mewnfudo rhyngwladol hefyd wedi'i seilio ar themâu cenedlaetholgar. A siarad yn gyffredinol, mae'r dadleuon hyn yn hawlio bod gormod o wahaniaethau diwylliannol a chrefyddol yn debygol o danseilio'r ymdeimlad o hunaniaeth gyffredin sy'n clymu cymdeithas at ei gilydd ac, yn sgil hyn, yn debygol o arwain at wrthdaro ac ansefydlogrwydd.

Fodd bynnag, o ystyried y dadleuon uchod, nid yw'n syndod bod cenedlaetholdeb ceidwadol yn draddodiad sydd wedi esgor ar gryn feirniadaeth.

O bosib, y pennaf o'r beirniadaethau hyn yw hwnnw sy'n hawlio bod cenedlaetholdeb ceidwadol yn draddodiad adweithiol ei natur sy'n esgor ar deimladau rhagfarnllyd ac anoddefgar. Trwy roi cymaint o bwyslais ar undod cenedlaethol, ac yn sgil hynny, ar bwysigrwydd sefydliadau traddodiadol a thraddodiadau diwylliannol penodol, mae peryg bod y sawl sy'n arddel y safbwynt hwn yn mynnu dehongli'r genedl mewn modd rhy gul ac yn rhoi gormod o bwyslais ar y gwahaniaethau rhwng aelodau'r genedl ac eraill. Yn wir, yn ei ffurf mwyaf eithafol gall y ffurf hon ar genedlaetholdeb droi'n hiliaeth neu'n senoffobia anoddefgar.